BWLETIN

# MANTELL GWYNEDD

Mawrth 2026

## Dathlu Grym Gwirfoddoli yng Nghaernarfon



Ar Ddydd Mawrth, 11 Chwefror, cynhaliwyd Marchnad Gwirfoddoli hynod lwyddiannus yn Neuadd y Farchnad yng Nghaernarfon. Rhwng 10yb a 2yp bu llif cyson o ymwelwyr yn galw heibio, gyda phobl o bob oed yn manteisio ar y cyfle i ddysgu mwy am y gwahanol ffyrdd y gallant gyfrannu at eu cymuned leol.

Roedd 20 o stondinau yn bresennol ar y diwrnod, yn cynrychioli amrywiaeth eang o fudiadau, elusennau a grwpiau cymunedol. Roedd yr amrywiaeth yn adlewyrchu cryfder a bywiogrwydd y sector gwirfoddol yn yr ardal a chafodd ymwelwyr gyfle i sgwrsio'n uniongyrchol â chynrychiolwyr y mudiadau, gyda nifer yn mynegi diddordeb mewn cymryd y cam cyntaf tuag at wirfoddoli.

Un o brif lwyddiannau'r digwyddiad oedd y rhyngweithio cadarnhaol a welwyd rhwng y gwahanol fudiadau. Cafwyd trafodaethau bywiog ac adeiladol drwy gydol y dydd, gyda chynrychiolwyr yn rhannu syniadau, arferion da a phrofiadau. Roedd yn amlwg bod y digwyddiad wedi creu cyfleoedd gwerthfawr i feithrin cysylltiadau newydd.



Teg dweud bod y Farchnad Gwirfoddoli yn enghraifft wych o gymuned yn dod ynghyd, gan gryfhau partneriaethau lleol ac ysbrydoli mwy o bobl i wneud gwahaniaeth cadarnhaol yn eu hardal.

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

Ffôn: 01286 672 626
www.mantellgwynedd.com
ymholiadau@mantellgwynedd.com

# CANOLFAN GWIRFODDOLI

## Marchnad Gwirfoddoli-Caernarfon




























CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

# DEWCH I
# WIRFODDOLI
# GWNEWCH
# WAHANIAETH

"GWNEWCH Y PETHAU BYCHAIN"



MANTELL GWYNEDD
CANOLFAN GWIRFODDOLI • VOLUNTEER CENTRE



# Ffrindia' Newydd

## HOFFECH CHI WIRFODDOLI AR GYFER CYNLLUN CYFEILLIO NEWYDD?

## DO YOU FANCY VOLUNTEERING FOR A NEW BEFRIENDING SCHEME?

Oes gennych chi awr neu ddwy i sbario i roi cwmni i'r rai sydd eu hangen?

Can you spare an hour or two to provide company to those who need it?

Sganiwch i gofrestru
Scan to register

Am fwy o wybodaeth... For more information...
beca.gruffydd@mantellgwynedd.com
(01286) 672 626
www.mantellgwynedd.com

Mantell Gwynedd
Canolfan Gwirfoddoli • Volunteer Centre

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU
Funded by UK Government

# CANOLFAN GWIRFODDOLI



## HYFFORDDIANT

# Diogelu- Grwp B

**Cyfle olaf!**

Dyma gyfle olaf i fanteisio ar y cyfle i fynychu hyfforddiant **Diogelu Grwp B (am ddim)** ar gyfer y sector wirfoddol yng Ngwynedd.

Mae'r hyfforddiant wedi'i anelu at staff a gwirfoddolwyr sydd â chysylltiad â phlant, pobl ifanc, a/neu eu rhieni/gofalwyr neu oedolion mewn perygl a/neu eu gofalwyr.

Mae pwyslais arbennig ar gyfer staff, gwirfoddolwyr ac ymddiriedolwyr y sector wirfoddol i fanteisio ar y cylfe yma.



🌙 **Gyda'r Nos ac ar-lein**
**(rhaid mynychu'r ddwy noson)**
🔵 Saesneg – 13eg a 14eg o Ebrill
⏰ 6.00pm – 8.30pm

## Cofrestrwch yma:



https://www.eventbrite.co.uk/e/group-b-safeguarding-training-evening-english-online-tickets-1980171471175?aff=odcleoeventsincollection

# ERYRI NI

## *Chwedlau Cymru / Tales of Wales*

Iau 19 Chwefror – Straeon y Sêr | 18:00–21:00 | Plas Tan-y-Bwlch
Sad 28 Chwefror – Cysylltiad â Natur | 10:00–13:00 | Llanberis
Sad 14 Mawrth – Swynhud i Iacháu'r Tir | 10:00–16:00 | Pensychnant
Sad 21 Mawrth – Anrhydeddu Blodeuwedd | 10:00–16:00 | Trigonos
Sul 22 Mawrth – Taith Gerdded Stori Hygyrch | 13:30–16:30 | Betws-y-Coed
Sad 28 Mawrth – Cyfrinachau Cwm Idwal | 10:00–13:00 | Cwm Idwal

Sesiynau yn cael eu harwain gan Mia Walker neu Fiona Collins, neu'r ddwy gyda'i gilydd.

*£10 am Hanner diwrnod*
*£15 am Ddiwrnod llawn*



PARTNERIAETH NATUR ERYRI NATURE PARTNERSHIP

Lleoedd Lleol ar gyfer Natur / Local Places for Nature


Y BARTNERIAETH AWYR AGORED
PROFIAD • MWYNHAU • LLWYDDO • GYDA'N GILYDD
EXPERIENCE • ENJOY • ACHIEVE • TOGETHER
THE OUTDOOR PARTNERSHIP

**Cerdded y tir. Gwrando ar y straeon. Adennill yr hud.**

Cysylltu â natur, chwedlau Cymru, llên gwerin, storiau y sêr — sesiynau croesawgar, wedi'u gwreiddio mewn lle, tymor a stori.

Sesiynau dwyieithog — cyfle gwych i ddysgu mwy am yr iaith a'r tir lle rydyn ni'n byw mewn lle diogel.

# IECHYD A LLESIANT









# Gliniaduron ar gael i'w llogi!

Mae Mantell Gwynedd yn falch o gyhoeddi bod gennym gliniaduron newydd sbon ar gael i'w llogi gan sefydliadau'r trydydd sector a gwirfoddolwyr.

Nod y cynnig yw gwella sgiliau digidol a hyrwyddo cynhwysiant digidol o fewn y gymuned. Os gallai eich grŵp neu eich gwirfoddolwyr elwa ar well mynediad at dechnoleg, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych.

**Cysylltwch â ni am ragor o wybodaeth!**

